

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD – RHYFEL Y FALKLAND

Yn aml, mae Rhyfel y Falkland 1982 yn cael ei addysgu a'i drafod o safbwynt y dadleuon gwleidyddol o blaid ac yn erbyn y rhyfel, ynghyd â'i oblygiadau ehangach ar gyfer arweinwyr Prydain a'r Ariannin ar y pryd. Mae'r deunydd hwn yn canolbwyntio ar naratif sylfaenol y rhyfel milwrol, ac Ymgyrch Black Buck yr RAF yn benodol.

GWYBODAETH GEFNDIR AM RYFEL Y FALKLAND



Mae Ynysoedd y Falkland, neu Islas Malvinas, yn grŵp o ynysoedd ym Môr Iwerydd, 300 milltir oddi ar arfordir De America ac 8,000 o filltiroedd o'r DU. Mae'n cynnwys dwy ynys fwy o ran maint – Dwyrain a Gorllewin y Falkland – a llawer o ynysoedd llai o ran maint.

Doedd neb yn byw ar yr Ynysoedd pan gyrhaeddodd anturwyr o Ewrop am y tro cyntaf yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Sbaen oedd y wlad gyntaf i hawlio'r Ynysoedd o dan ddeddfau a gyhoeddwyd gan y Pab yn datgan hawliau Sbaen i lywodraethu De America. Fodd bynnag, yn ôl ffynonellau o Loegr a Ffrainc ar y pryd, llongwr o Loegr, y Capten John Strong, oedd y person cyntaf o Ewrop i lanio ar yr Ynysoedd, cyn i'r Ffrancwyr lanio yno ym 1701.

Y Ffrancwyr a sefydlodd yr anheddiad cyntaf ar yr Ynysoedd ym 1764, ond roedden nhw wedi gadael o fewn dwy flynedd. Sefydlodd y Prydeinwyr anheddiad ar wahân ym Mhorth Egmont, yng Ngorllewin Ynysoedd y Falkland ym 1765. Gadawodd y Prydeinwyr yr anheddiad hwn ym 1774, gan godi plac yn hawlio bod yr Ynysoedd yn eiddo i frenin Prydain. Ar ôl hynny, doedd neb yn byw ar Ynysoedd y Falkland, ond byddai llongau'n oedi yno weithiau wrth groesi Môr

Iwerydd, er nad oedd unrhyw borthladd ffurfiol yno.

Ym 1820, ceisiodd gwlad newydd yr Ariannin (a gafodd ei chreu gan y drefedigaeth Sbaenaidd yn yr ardal) hawlio ei bod yn berchen ar yr Ynysoedd. Fodd bynnag, gan fod Ariannin yn wladwriaeth newydd a oedd wrthi'n rhyfela yn erbyn Sbaen, anwybyddwyd ei hawliau dros yr Ynysoedd i raddau helaeth. Fe aeth yr Ariannin ati i sefydlu anheddiad ar yr Ynysoedd, ond fe'i dinistriwyd gan Lynges UDA ym 1831 yn dilyn anghydfod ynglŷn â hela morloi.

Ym 1833, fe aeth morwyr o Brydain ati i greu anheddiad parhaol yn y

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND



Falkland, a ddaeth yn sylfaen i'r aneddiadau presennol ar yr Ynysoedd. Erbyn hyn, mae'r Falkland yn un o Dirioogaethau Tramor Prydain.

Mae Ynyswyr y Falkland yn hanu o dras Brydeinig yn bennaf, ac mae'r rhan fwyaf yn ystyried eu hunain yn Brydeinwyr.

Mae hawl yr Ariannin dros yr Ynysoedd yn hanesyddol yn rhannol, ar sail etifeddu ardaloedd a fu o dan reolaeth Sbaen cyn hynny, ac yn ddaearyddol yn rhannol, gan mai'r Ariannin yw'r wlad agosaf i'r Falkland. Mae pobl yr Ariannin yn cyfeirio at y Falkland fel 'Las Malvinas', sy'n tarddu o'r enw Ffrengig o'r ddeunawfed ganrif, Îles Malouines.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth yr Ynysoedd yn bwysig i Brydain fel

lle i gefnogi gweithgareddau'r llynges. Yn ystod Brwydr Ynysoedd y Falkland ym mis Rhagfyr 1914, fe gafodd llongau llynges yr Almaen eu dinistrio gan y Llynges Frenhinol, gan atal cyrchoedd pellach gan yr Almaen yn Ne'r Iwerydd. Roedd yr Ariannin yn wlad niwtral yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn yr Ail Ryfel Byd, roedd y berthynas rhwng Prydain, UDA a'r Ariannin yn fwy cymhleth oherwydd cydymdeimlad Ariannin â'r gwledydd Axis. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni wnaeth yr Ariannin gymryd rhan yn y rhyfel.

Yn y cyfnod ar ôl 1945, bu Llywodraeth Prydain yn ystyried y posibilrwydd o ddychwelyd neu efallai lesio (yn debyg i rentu) yr Ynysoedd i'r Ariannin. Fodd bynnag, roedd ymweliadau swyddogol â'r Falkland a thrafodaethau â'r Ynyswyr bob amser yn arwain

at ddatganiad bod yr Ynyswyr yn dymuno aros yn rhan o Brydain. Fe aeth yr Ariannin ati o ddifrif i honni ei bod yn berchen ar yr Ynysoedd o'r 1940au ymlaen. Roedd Llywodraeth yr Ariannin yn tueddu i wneud y datganiadau hyn ar adegau pan oedd yn wynebu problemau domestig – roedd yr ymgais i hawlio'r Falkland yn ffordd o dynnu sylw pobl yr Ariannin oddi ar faterion eraill. Wedi'r cwbl, ychydig iawn o werth strategol sydd i'r Ynysoedd, a ffermio defaid yw'r prif ddiwydiant yno.

Fodd bynnag, dros y degawdau diwethaf mae rhai pobl wedi awgrymu bod olew neu adnoddau eraill ar gael oddi ar arfordir y Falkland, sy'n golygu bod yna oblygiadau economaidd posibl i berchenogaeth yr Ynysoedd hefyd.

BOCS FFEITHIAU

Poblogaeth Ynysoedd y Falkland:
2,932 (Cyfrifiad 2012)

Nifer y defaid ar yr Ynysoedd: tua **700,000**

Nifer y Pengwiniad: tua **miliwn**

Nifer y ffrwydrion tir ar y traethau: **20,000** (i atal goresgyniad arall). Fodd bynnag, maen nhw wedi llwyddo i gadw goresgynwyr draw o'r traethau, gan greu mannau bridio delfrydol i'r pengwiniad, sy'n rhy ysgafn i danio'r ffrwydrion.

Mae ardal y Falkland yn cynnwys **778** o ynysoedd.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

MIS EBRILL 1982 – GORESGYNIAD

Ym 1982, roedd poblogaeth yr Ynysoedd yn llai na 2,000.

Y flwyddyn gynt, roedd Llywodraeth Prydain wedi tynnu llong patrôl rhew'r Llynges Frenhinol o'r Falkland, ac roedd rhai'n credu bod hynny'n arwydd o'i bwriad i dynnu allan o'r ardal yn raddol. Roedd llywodraethau'r Ariannin a Phrydain wedi ceisio trafod perchenogaeth yr Ynysoedd sawl gwaith dros y degawdau, ond daeth yn fater o bwys yn dilyn ethol y Cadfridog Galtieri yn arlywydd newydd yr Ariannin.

Ar 2 Ebrill 1982, penderfynodd yr Ariannin oresgyn Ynysoedd y Falkland. Roedd yr ymosodiad yn ffordd o ddangos grym gwleidyddol yr Ariannin mewn ymateb i anfodlonrwydd yn y wlad – roedd y Cadfridog Galtieri yn credu y byddai'n helpu i ddiogelu ei jwnta filwrol

(y cyngor milwrol a oedd yn rheoli'r wlad). Doedd yr Ynyswyr ddim wedi disgwyl ymosodiad o unrhyw fath, felly doedden nhw ddim yn barod o gwbl am yr hyn a ddigwyddodd. Bu'n rhaid i 80 o Fôr-filwyr Brenhinol wynebu 3,000 o filwyr yr Ariannin, a doedd dim syndod bod yr Ynysoedd wedi'u goresgyn cyn pen dim.

Drannoeth, mynnodd y Cenhedloedd Unedig fod lluoedd yr Ariannin yn gadael y Falkland ar unwaith, ond yn hytrach na gwneud hynny, anfonodd yr Ariannin fwy o filwyr yno. Er bod Unol Daleithiau America yn ffrind i Brydain, fe benderfynodd beidio ag ymyrryd yn yr anghydfod oherwydd ei sefyllfa wleidyddol ei hun yn Ne America. Serch hynny, penodwyd llysgennad America, Alexander Haig, yn drafodwr er mwyn ceisio datrys y gwrthdaro.

Wrth i'r trafodaethau ddechrau, fe anfonodd Llywodraeth Prydain, o dan arweiniad Margaret Thatcher, gyrchlu'r llynges yn cynnwys dros 100 o longau a 28,000 o bersonél y lluoedd arfog er mwyn rhyddhau'r Ynysoedd. Fe gafodd y cyrchlu ac ymateb milwrol Prydain eu cymeradwyo gan Senedd y DU, gan gynnwys y gwrthbleidiau. Roedd cyrchlu'r llynges yn cynnwys dwy long awyrennau; llong y llyngesydd HMS *Hermes* a HMS *Invincible*, ynghyd â ffrigadau cysylltiedig; tair llong danfor niwclear; llongau amffibiaidd; llongau arbenigol; a 50 o longau a gafodd eu meddiannu'n orfodol o'r fflyd fasnachol (heb fod yn filwrol), gan gynnwys y QE2 (y llong deithio *Queen Elizabeth II*), Canberra a llong ysbyty wedi'i haddasu, *Uganda*.

PROBLEMAU YN SGIL RHYFEL YN NE'R IWERYDD

Erbyn y 1980au roedd Prydain wedi hen arfer â'i hystyried ei hun yn aelod o NATO, ac roedd yn canolbwyntio ar y Rhyfel Oer. Rhyfel y Falkland oedd y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer i Brydain fod yng nghanol gwrthdaro ar ei phen ei hun ymhell o gartref. Oherwydd toriadau i adnoddau milwrol y DU dros y blynyddoedd, roedd ymladd rhyfel heb gynghreiriad milwrol yn risg enfawr. Bu'n rhaid cynnwys llongau heb fod yn filwrol yng nghyrchlu'r llynges er mwyn sicrhau bod modd anfon digon o longau i Dde'r Iwerydd.

Llynges y DU oedd y gryfaf yn y byd ar un adeg, ond oherwydd blaenoriaethau gwleidyddol fel y Rhyfel Oer – a'r ffaith nad oedd Prydain yn rym imperialaidd, yn llywodraeth ymerodraeth fyd-eang bellach – doedd dim angen llynges enfawr. Erbyn 1982, roedd gweithgarwch milwrol Prydain yn canolbwyntio ar ymladd rhyfel ar y tir ac ymosod ac amddiffyn o'r awyr dros bellteroedd byr a chanolig.

Mae 8,000 o filltiroedd yn gwahanu'r DU a'r Falkland, sy'n bellter enfawr. Fel arfer, byddai angen teithio'n bell mewn awyren i Dde America ac yna teithio mewn awyren arall i gyrraedd yr Ynysoedd. Mae'n cymryd wythnosau i deithio yno ar long – byddai wedi

cymryd bron i fis i gyrchlu'r llynges gyrraedd Ynysoedd y Falkland. Roedd hyn yn creu problem arall – a fyddai'r ymateb milwrol yn cyrraedd yr Ynysoedd mewn pryd i atal Ariannin rhag meddiannu'r lle yn gyfan gwbl?

Fe gafodd Prydain gymorth gwleidyddol gan ei chynghreiriaid. Cyflwynodd y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (rhagflaenydd yr Undeb Ewropeaidd) sancsiynau yn erbyn yr Ariannin yn dilyn ei gweithred filwrol, gan ddatgan ei chefnogaeth i Brydain. Er nad oedd America yn dymuno ymyrryd yn y gwrthdaro, fe aeth ati maes o law i rannu cudd-wybodaeth filwrol â'r DU er mwyn cefnogi gweithredoedd Prydain.

Serch hynny, roedd y rhyfel yn cael ei hystyried yn fater i Brydain yn unig. Doedd neb yn fodlon anfon milwyr i helpu Prydain. Oherwydd sefyllfa wleidyddol De America, roedd y rhan fwyaf o'r gwledydd yno yn cefnogi gweithredoedd yr Ariannin yn y lle cyntaf, ond fe wnaethon nhw hynny trwy ddatgan cefnogaeth ar lafar yn hytrach na darparu cymorth milwrol. I rai, roedd hon yn frwydr rhwng gwlad a fu'n rym trefedigaethol yn y gorffennol a'r byd annibynnol newydd. Fodd bynnag, uwchlaw popeth arall, roedd y rhyfel yn brawf ar lluoedd milwrol Prydain ac yn gambl i wleidyddion y wlad.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

Y CAMAU OLAF I RYFEL

Tra bod Cyrchlu'r Llynges o fewn wythnosau i gyrraedd yr Ynysoedd, cyhoeddodd Llywodraeth Brydain barth gwaharddedig 200 milltir o gwmpas yr Ynysoedd (12 Ebrill 1982). Fe wnaeth hyn er mwyn ceisio atal rhagor o ymosodiadau ar yr Ynysoedd gan yr Ariannin tra bod trafodaethau heddwch yn parhau.


Dechreuodd ymgyrch lluoedd Prydain i adennill yr ynysoedd ar 25 Ebrill, ac fe wnaethon nhw lwyddo i adennill De Georgia, ynys oedd yn perthyn i grŵp y Falkland

ar y pryd, er ei bod dros 900 milltir i ffwrdd o brif grŵp ynysoedd y Falkland. Ar 29 Ebrill, gwrthododd Llywodraeth yr Ariannin gynigion heddwch Llysgennad yr Unol

Daleithiau, Alexander Haig. Wedyn, cyhoeddodd yr Unol Daleithiau ei chefnogaeth wleidyddol i Brydain.

Erbyn 1 Mai roedd y gwrthdaro wedi troi'n rhyfel.

HEDFAN YN BELL – CAMPAU PEIRIANYDDOL



Yn yr un modd ag yr oedd Cyrchlu'r Llynges wedi'i anfon yn ystod y trafodaethau heddwch, roedd asesiad o'r hyn y byddai angen ei wneud pe bai trafodaethau'n methu yn mynd rhagddo gyda'r RAF.

Oherwydd sefyllfa wleidyddol y cyfnod, nid oedd unrhyw un o wledydd De America na'r Unol Daleithiau yn fodlon caniatáu i Brydain ddefnyddio eu canolfannau awyr ar ddechrau'r gwrthdaro, felly bu'n rhaid i'r RAF gynllunio i hedfan o ganolfannau Prydeinig yn unig. Fodd bynnag, roedd y ganolfan hedfan Brydeinig agosaf i'r Falkland wedi'i lleoli ar Ynysoedd Ascension. Er bod yr ynysoedd hyn wedi'u lleoli ym Môr Iwerydd, roedden nhw 3,900 milltir i ffwrdd o'r Falkland – dyna'r man agosaf i gynnal cyrch awyr. Doedd yr awyrennau na'r offer ar y pryd ddim wedi'u dylunio ar gyfer

ymosodiad o bell fel hyn, ac roedd yn ymddangos bod ymosodiad awyr yn amhosibl. Ond bu'n rhaid i'r peirianwyr a'r gwyddonwyr gynllunio ar gyfer hyn rhag ofn bod y trafodaethau heddwch yn methu.

Roedd y cynllun ei hun yn syml. Er mwyn atal yr Archentwyr rhag dod â llawer o filwyr a chyflenwadau i'r Falkland, byddai'n rhaid i'r Prydeinwyr sicrhau nad oedd modd defnyddio'r prif faes awyr a'r rhedfa yn Stanley (y brifddinas). O ganlyniad, byddai modd ymosod ar y rhedfa o'r awyr.

Yr her oedd sut i hedfan dros 7,800 milltir (3,900 milltir bob ffordd). Doedd

yr un o'r awyrennau bomio yn gallu hedfan mor bell â hynny heb gael rhagor o danwydd, ond gan fod yr RAF wedi bod yn canolbwyntio ar dargedau pellter byr a chanolig yn Ewrop, roedd wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio cyfarpar i ail-lenwi tanc awyren yn ystod taith hedfan. I wneud hyn, roedd angen ail awyren fawr i gludo symiau enfawr o danwydd er mwyn ail-lenwi tanc yr awyren fomio trwy hedfan wrth ei hochr a chysylltu â hi. Roedd y broses o ail-lenwi tanc tanwydd awyren yn yr awyr yn gyffredin yn y 1960au cynnar, ond daeth y dull hwn i ben gan nad oedd ei angen bellach – tan nawr.

Bu'n rhaid i'r peirianwyr chwilio am yr

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

hen dechnoleg (a chwilliwr ail-lenwi yn benodol) mewn canolfannau hedfan. Yn y diwedd, fe lwyddodd y peirianwyr i ddod o hyd i rywffaint o'r cyfarpar, ond bu'n rhaid iddynt fynd ati i addasu cyfarpar presennol neu ddyfeisio cyfarpar newydd – a hynny mewn tua 4 wythnos!

Bu'n rhaid addasu awyrennau cludo mawr fel y Victor a'r Nimrod yn awyrennau tanwydd, ynghyd â rhai awyrennau Hercules, a bu'n rhaid addasu awyren fomio'r Vulcan er mwyn gallu ei llenwi â thanwydd yn yr awyr. Hefyd, roedd angen i holl beilotiaid a chriw'r awyrennau ddsygu'n gyflym iawn sut i ddefnyddio'r cyfarpar a sut i gysylltu'r awyrennau yn yr awyr, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd targed yr ymgyrch.

Hefyd, bu'n rhaid i rywun gyflawni'r dasg fathemategol o gyfrifo faint o danwydd y gallai pob awyren ei gludo, ei ddefnyddio i ail-lenwi'r awyren fomio a sicrhau bod ganddi ddigon ar ôl i ddychwelyd i'r Ynysoedd Ascension.

Roedd pob un o'r awyrennau bomio yn 20 mlwydd oed a doedd eu systemau llywio ddim hanner cystal â'r systemau llywio modern, felly roedd canolbwyntio ar gyrraedd y cyrchfan cywir yn fater hynod bwysig i bob criw. Ar ôl codi i'r awyr, byddai'n rhaid i'r criw ddibynnu ar eu hofferynnau er mwyn llywio'r awyren a pharatoi i gyfarfod â'r awyren a oedd yn cludo'r tanwydd. Roedd yr awyrennau'n hedfan dros y cefnfor y rhan fwyaf o'r amser, felly doedd dim modd i'r peilotiaid ddefnyddio tirnodau i bwysio



a mesur pellter a nodi eu lleoliad.

Ar 24 Ebrill, hedfanodd yr awyrennau Vulcan o'r DU i'r Ynysoedd Ascension gan aros yno i weld beth fyddai'n digwydd.

Ar ôl i'r cynnig heddwch gael eu gwrthod, fe aeth yr RAF ati i baratoi ar gyfer ei ran yn rhyfel y Falkland.

“Ychydig cyn hanner nos ar 30 Ebrill, fe wnaeth dau griw o Sgwadron 101 baratoi i hedfan dwy awyren fomio 22 oed fel rhan o'r ymgyrch fomio hiraf mewn hanes ar y pryd.”

The RAF www.raf.mod.uk/history/OperationBlackBuck.cfm

Ffugenw'r ymgyrch oedd 'Operation Black Buck.' Fel rhan o'r ymgyrch, ymosodwyd ar ganolfan awyr y Falkland saith gwaith, a phob tro roedd dwy awyren Vulcan yn codi, ond dim ond un yn gwneud y gwaith bomio; roedd yr ail awyren ond yn cael ei defnyddio os oedd y brif awyren fomio yn methu. Er mwyn hedfan mor bell, a dychwelyd, roedd angen cymorth deuddeg o awyrennau tancer Victor wrth hedfan i ymosod, a dwy awyren Victor ac awyren Nimrod wrth ddychwelyd (roedd yr awyrennau bomio yn ysgafnach ar y ffordd yn ôl a doedd dim angen cymaint o danwydd arnynt).

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

YMGYRCH BLACK BUCK

Yn y cyrch cyntaf, hedfanodd 13 o awyrennau o Ynys Ascension.

Wrth hedfan i'r Falkland, nododd peilot y brif awyren fomio fod nam ar yr awyren, a bu'n rhaid iddo droi yn ôl – yr ail awyren oedd y brif awyren fomio bellach.

Datblygodd un o'r awyrennau Victor (awyren yn cludo tanwydd) broblem fecanyddol a bu'n rhaid iddi droi yn ôl, ond roedd ail awyren ar gael i gymryd drosodd, felly roedd cyfanswm o 11 awyren yn rhan o'r cyrch awyr. Roedd y broses o ail-lenwi'r awyrennau â thanwydd yn yr awyr yn llwyddiannus am y rhan fwyaf o'r daith i'r Falkland, gyda phob un o'r awyrennau cefnogi yn dychwelyd i Ynys Ascension ar ôl cyflenwi'r awyren fomio. Fodd bynnag, wrth ail-lenwi'r awyren am y tro olaf ond un, fe gafodd un o'r chwilyr a oedd yn derbyn tanwydd ei ddfrodi, ac er mwyn goresgyn y broblem, bu'n rhaid i'r ddwy awyren Victor gyfnewid rôl wrth i'r naill lenwi'r llall â thanwydd cyn gadael. Er mwyn gweld a oedd yr awyren fomio Vulcan wedi'i difrodi o gwbl, penderfynodd Arweinydd y Sgwadron, Bob Tuxford, ail-lenwi'r awyren Vulcan olaf yn gynt na'r disgwyl.

Gan fod yr awyren Vulcan wedi'i hail-lenwi yn gynnar, bu'n rhaid i Tuxford sicrhau bod gan yr awyren ddigon o danwydd i gwblhau'r cyrch a hedfan yn ôl yn unol â'r cynllun. I wneud hyn, fe aeth ati i ddefnyddio rhywfaint o gyflenwad tanwydd ei awyren ei hun, gan roi tanwydd i'r awyren Vulcan er ei fod yn gwybod bod angen y tanwydd hwnnw ar ei awyren ei hun er mwyn dychwelyd i Ynysoedd Ascension. Trwy weithredu fel hyn, roedd Tuxford wedi sicrhau y byddai ymosodiad y Vulcan yn llwyddo.



Bellach, roedd angen i awyren arall adael Ynysoedd Ascension i gyfarfod ag awyren Victor Tuxford yn yr awyr dros yr Iwerydd er mwyn ei hail-lenwi â thanwydd. Byddai angen sgiliau hedfan o'r radd flaenaf gan beilotiaid y ddwy awyren i wneud hyn.

Roedd yna broblem ychwanegol hefyd – wrth ail-lenwi'r ddwy awyren â thanwydd, roedd yr awyrennau wedi symud i mewn i barth dim radio. Roedd yr RAF wedi pennu'r rheol hon er mwyn sicrhau na fyddai'r Archentwyr yn clywed unrhyw negeseuon a dod i wybod bod ymosodiad awyr ar y gweill. O ganlyniad, ni allai Tuxford anfon neges radio yn dweud bod angen i'r tancer awyren ychwanegol ddod i'w gyfarfod nes iddo glywed y gair cod 'Polo' gan yr awyren Vulcan, a oedd yn golygu bod yr awyren wedi cwblhau ei gwaith o fomio'r maes

awyr. Yn ffodus, fe glywodd y gair cod a llwyddodd tancer awyren i'w gyrraedd mewn pryd. Pe na bai'r awyren honno wedi cyrraedd Tuxford, fe fyddai e, ei griw, a'r awyren Victor wedi gorfod hedfan i'r Iwerydd.

Peilot yr awyren Vulcan oedd Awyr-Lefftenant Withers, a lwyddodd i gwblhau'r cyrch yn llwyddiannus, gan ollwng 21 o fomiau ar y maes awyr mewn pum eiliad. Doedd yr Archentwyr ddim yn barod am yr ymosodiad a doedd dim modd iddyn nhw ei atal.

Roedd cyrch yr awyren fomio, rhwng codi a glanio, wedi cymryd 15 awr a 50 munud, a bu'n rhaid ail-lenwi'r awyren â thanwydd 18 o weithiau. Mae hynny'n amser hir i orfod canolbwyntio'n fanwl ar hedfan awyren gymhleth.

Fe gafodd Awyr-Lefftenant Withers ei gydnabod am ei rôl yn y cyrch,

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

gan ennill y Groes Hedfan Nodedig. Fe gafodd Arweinydd y Sgwadron, Bob Tuxford, ei anrhydeddu am ei ddewrder a'i barodrwydd i roi'r cyrch o flaen ei ddiogelwch ei hun, gan ennill Croes yr RAF.

Fe gafodd y chwe ymosodiad Black Buck arall eu cynnal rhwng mis Mai a mis Mehefin 1982; roedd yr ymosodiad olaf ar 12 Mehefin. Yn ogystal â chyflawni amcanion Ymgyrch Black Buck, roedd y

cyrchoedd awyr wedi dangos bod yr RAF yn gallu delio'n llwyddiannus â phroblemau mawr, gan gynnal ymgyrchoedd anodd a pheryglus dros bellteroedd hir. Roedd llawer o bobl ledled y byd wedi credu bod Ymgyrch Black Buck yn amhosibl – roedd yr RAF wedi'u profi'n anghywir.

O ganlyniad i'r ymgyrch, doedd yr Archentwyr ddim yn gallu defnyddio maes awyr Stanley i lansio awyrennau bomio mawr er mwyn

ymosod ar luoedd Prydain, na dod â llawer o gyflenwadau i'r ynys. Fodd bynnag, fe gafodd llwyddiant yr RAF ei anwybyddu i raddau helaeth oherwydd yr ymladd ofnadwy ar y tir yn y Falkland, y marwolaethau yn y môr a'r dadleuon gwleidyddol. O ganlyniad, mae llwyddiant technolegol anhygoel yr RAF yn ystod y gwrthdaro yn parhau i fod yn anhysbys i lawer o bobl hyd heddiw.

YN Y MÔR AC AR Y TIR

Yr unig ffordd o symud llawer o filwyr Prydeinig i'r Ynysoedd oedd eu cludo mewn llong. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r milwyr lanio ar yr Ynysoedd ar ôl treulio wythnosau yn y llong. Hon oedd ymgyrch fawr gyntaf y Llynges Frenhinol ers yr Ail Ryfel Byd.

Ar 2 Mai, fe gafodd llong yr Ariannin o'r enw General Belgrano ei suddo gan daflegrau torpido'r llong danfor Brydeinig, *HMS Conqueror*. Fe gafodd 368 o Archentwyr ar fwrdd y llong eu lladd, ac fe gafodd tua 650 eu hachub. Buan iawn y datblygodd y weithred o suddo'r Belgrano yn fater dadleuol yn y rhyfel, gyda'r ddwy ochr yn anghytuno ynglŷn ag a oedd y llong yn yr ardal dan waharddiad neu'n hwylio i ffwrdd o'r Ynysoedd pan gafodd ei tharo.

Ddeuddydd yn ddiweddarach, ar 4 Mai, fe gafodd y llong Brydeinig *HMS Sheffield* ei tharo gan yr Archentwyr. Fe gafodd y llong ryfel fechan ei tharo yn yr ystafell reoli, ac aeth ar dân yn fuan wedyn. Cafodd 20 o forwyr Prydeinig eu lladd ac fe gafodd llawer o rai eraill eu llosgi'n ddifrifol. Roedd yr holl ddigwyddiad wedi cael ei ffilmio gan griwiau



HMS Sheffield Nathalmad [CC BY 3.0 (<http://creativecommons.org/licenses/by/3.0/>)], via Wikimedia Commons

teledu Prydeinig, gan ddod â'r rhyfel yn fyw iawn i'r cyhoedd ym Mhrydain, wrth i forwyr gael eu ffilmio'n neidio i'r môr er mwyn dianc rhag y fflamau. *HMS Sheffield* oedd llong fawr gyntaf y Llynges Brydeinig i gael ei dinistrio mewn 37 mlynedd - y llong gyntaf ers yr Ail Ryfel Byd.

Ar 14/15 Mai, fe aeth yr SAS (Lluoedd Arbennig Prydain) ati i ymosod ar luoedd Ariannin, gan lwyddo i ddinistrio rhai o awyrennau'r wlad. Ar yr un pryd, lluniodd Llywodraeth Prydain gynigion i ddod â'r gwrthdaro i ben, ond fe gawsant eu gwrthod gan Lywodraeth Ariannin ar

18 Mai. Cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig ar 20 Mai fod y trafodaethau wedi methu. Ar yr un noson, fe laniodd milwyr Prydeinig ar Ddwyrain y Falkland er mwyn dechrau'r frwydr i adennill yr Ynys.

Ar ôl un o frwydrau ffyrnigaf y rhyfel ar 28 Mai, llwyddodd Ail Gatrawd y Parasiwtwyr Prydeinig i adennill aneddiadau Goose Green a Darwin. Wedyn, fe wnaethant ddechrau symud ar draws yr Ynys i ryddhau'r brifddinas Stanley, gan orfod wynebu tywydd gaeafol garw. Cafodd y daith ei disgrifio fel yr 'yomp' gan fod angen i'r milwyr deithio ar draws tir anodd.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

DIWEDD Y RHYFEL

Ar 4 Mehefin, defnyddiodd Prydain a'r Unol Daleithiau eu pleidlais fetu yng Nghyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig i atal galwad y Cenhedloedd Unedig am gadoediad.

Roedd yr ymladd yn parhau yn ystod mis Mehefin, er gwaethaf ymdrechion y Cenhedloedd Unedig i orfodi cadoediad. Roedd rhagor o filwyr Prydeinig yn paratoi i gymryd rhan yn y rhyfel. Ar 8 Mehefin, roedd llongau glanio'r RFA (y Llynges Gynorthwyol Frenhinol) *Sir Galahad* ac RFA *Sir Tristram* yn paratoi i lanio milwyr ar y tir, gan gynnwys unedau o'r Gwarchodlu Cymreig a Gwarchodlu'r Alban, pan ymosododd awyrennau'r Ariannin arnynt. Fe aeth y llong *Sir Galahad* ar dân gan ladd 56 o ddynion, a hon oedd yr ergyd waethaf i Brydain yn ystod yr holl rhyfel. Fe gafodd 150 arall eu hanafu, a llosgwyd rhai ohonynt yn ddifrifol.

Roedd Bob Darby yn Gaptyn yng nghatrawd y parasiwtwyr a gafodd ei

hanfon i'r Falkland, ac fe gymerodd ran mewn nifer o frwydrau yn erbyn yr Archentwyr. Mae'n cofio gweld ei ffrindiau a'i gymrodyr yn cael eu lladd wrth groesi'r Ynys, ac yn dechrau sylweddoli 'bod dim byd gogoneddus am ryfel'. Roedd wedi ysgrifennu llythyr adref rhag ofn ei fod yn cael ei ladd, ond mae'n credu bod ei hyfforddiant a disgyblaeth y Fyddin Brydeinig wedi helpu'r milwyr i lwyddo er gwaethaf yr amodau ofnadwy. Fe ddisgrifiodd y gelyn fel 'dynion yn debyg i mi - wedi'u hanfon yno i wneud gwaith', ond fe sylwodd hefyd nad oedd ganddynt gymorth nac offer cystal â'r milwyr Prydeinig.

Yn wir, wrth i'r ymladd barhau fe ddaeth yn amlwg bod ysbryd y milwyr Archentaidd yn isel. Roedd llawer o garcharorion rhyfel Ariannin yn ddynion ifanc yn eu harddegau a oedd wedi'u gorfodi i ymuno â'r fyddin. Doedden nhw ddim wedi cael llawer o hyfforddiant a doedd

ganddyn nhw ddim llawer o gyflenwadau.

Roedd yr ymladd yn parhau ger y brifddinas ar 13-14 Mehefin, ond roedd lluoedd Ariannin yn dechrau gwegian dan y pwysau. Gorymdeithiodd lluoedd Prydain i dref Stanley ei hun bron yn ddiwrthwynebiad. Fe ildiodd yr Archentwyr ar 14 Mehefin ac fe gyhoeddwyd yn swyddogol bod y rhyfel ar ben ar 20 Mehefin.

Fe gafodd 252 o aelodau o luoedd arfog Prydain eu lladd yn y rhyfel ynghyd â thri sifiliad. Cafodd tua 300 o aelodau o'r lluoedd arfog eu hanafu. Does dim ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer nifer yr Archentwyr a fu farw, ond amcangyfrifir bod o leiaf 655 wedi cael eu lladd. Mae'r rhai a fu farw o'r ddwy wlad wedi'u claddu ar yr Ynysoedd neu fe gollwyd eu cyrff yn y môr. Mae cofebion i'r rhai a fu farw o Brydain yn y Falkland a'r DU.

Y GOBLYGIADAU GWLEIDYDDOL

Fe gafodd Arlywydd Ariannin, y Cadfridog Galtieri, ei ddisodli ar ôl Rhyfel y Falkland, ac fe drodd sylw'r Archentwyr at eu problemau domestig unwaith eto. Yn y DU, fe gafodd Rhyfel y Falkland effaith enfawr ar Brif Weinidog Prydain, Margaret Thatcher, wrth iddi ddod yn ffigwr llawer mwy poblogaidd. Mae rhai pobl wedi dadlau bod llwyddiant Rhyfel y Falkland wedi ei helpu i ennill Etholiad Cyffredinol 1983 yn y DU.

Parhaodd y dadleuon gwleidyddol yn ymwneud â suddo llong y Belgrano am nifer o flynyddoedd, gan greu delwedd negyddol iawn o'r DU ar lefel ryngwladol yn aml.

Yn y blynyddoedd ers Rhyfel y Falkland, mae'r berthynas rhwng y DU ac Ariannin wedi bod yn gymharol dda, er bod Llywodraeth yr Ariannin yn parhau i gredu y dylai'r Ynysoedd fod yn eiddo i'r wlad. Bob yn awr ac yn y man mae'n ceisio hawlio bod ganddi sofraniaeth dros yr Ynysoedd. Fodd bynnag, mae dymuniad y pobl sy'n

byw ar yr Ynysoedd i gael eu hystyried yn rhan o'r DU mor gryf ag erioed, ac maen nhw wedi pleidleisio dro ar ôl tro dros barhau i fod yn rhan o Brydain. Maen nhw'n dadlau bod yr hawl hon yn seiliedig ar reolau'r Cenhedloedd Unedig ar 'ymreolaeth', tra bod yr Archentwyr yn parhau i ddadlau bod yr Ynysoedd o fewn eu parth daearyddol.

Ers 1982, mae Llywodraeth y DU wedi cadw presenoldeb milwrol ar yr Ynysoedd, gan gynnwys aelodau'r RAF yn aml. Yn ystod gwanwyn 2012,

roedd Tywysog William, Dug Caergrawnt, wedi'i leoli ar yr Ynysoedd fel rhan o'i wasanaeth milwrol. Er mwyn cyrraedd Ynysoedd y Falkland heddiw, fel arfer mae pobl yn teithio i wlad yn Ne America ac yn hedfan ymlaen o'r fan honno. Mae llongau'n parhau i ymweld â'r Ynysoedd, sydd â'u diwydiant twristiaeth eu hunain ac sy'n cyfrannu at waith cadwraeth.

Atodir dau benderfyniad y Cenhedloedd Unedig yn mynnu bod y rhyfel yn dod i ben, a chytundeb ildio mis Mehefin 1982.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

LLINELL AMSER

2 Ebrill: Lluoedd arfog yr Ariannin yn goresgyn Ynysoedd y Falkland ac yn cipio'r brifddinas, Port Stanley. Mae'r Llywodraethwr Rex Hunt yn gorfod ildio.

3 Ebrill: Mae Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig yn cyhoeddi Penderfyniad 502 sy'n galw ar Ariannin i dynnu ei lluoedd o'r Ynysoedd ar unwaith.

Mae'r RAF yn dechrau meddwl am ddulliau o helpu i adennill Ynysoedd y Falkland.

5 Ebrill: Mae dros 100 o longau'n cael eu hanfon i'r Ynysoedd fel cyrchlu milwrol Prydeinig. Mae'r Arglwydd Carrington, yr Ysgrifennydd Tramor, yn ymddiswyddo oherwydd y goresgyniad, ac yn cael ei ddisodli gan Francis Pym.

24 Ebrill: Mae pum awyren Vulcan yn hedfan o'r DU i'r Ynysoedd Ascension.

25 Ebrill: Mae'r Môr-filwyr Brenhinol yn adennill De Georgia (a oedd yn rhan o grŵp Ynysoedd y Falkland ar y pryd).

29 Ebrill: Mae Llywodraeth Ariannin yn gwrthod cynigion heddwch Llysgennad UDA, Alexander Haig. Mae'r Unol Daleithiau yn datgan ei chefnogaeth wleidyddol i Brydain.

30 Ebrill: Mae cyrchlu'r llynges yn cyrraedd yr ardal 200 milltir dan waharddiad sy'n amgylchynu'r Falkland.

1 Mai: Mae'r gwrthdaro yn datblygu'n rhyfel llawn.

Mae'r RAF yn cynnal ei ymosodiad cyntaf fel rhan o Ymgyrch Black Buck.

2 Mai: Mae llong ryfel gyflym Ariannin, *General Belgrano*, yn cael ei tharo gan dorpido o'r llong danfor Brydeinig, HMS *Conqueror*. Mae'r llong yn suddo ac mae 320 o forwyr Ariannin yn cael eu lladd.

4 Mai: Mae'r llong ryfel fechan HMS *Sheffield* yn cael ei tharo gan daflegryn o'r Ariannin. Mae 20 o bobl yn cael eu lladd ac mae'n rhaid i bawb adael y llong.

19 Mai: Mae hofrennydd o Brydain sy'n cludo milwyr SAS yn disgyn dros y môr – mae 22 o bobl yn cael eu lladd.

21 Mai: Mae'r Prydeinwyr yn glanio yn San Carlos er mwyn dechrau'r frwydr ar y tir i adennill y prif ynysoedd. Mae'r Archentwyr yn suddo'r ffrigid Brydeinig HMS *Ardent* gan ladd 22 o forwyr. Mae 15 o awyrennau'r Ariannin yn cael eu saethu i lawr.

24 Mai: Mae'n rhaid i'r ffrigid Brydeinig, HMS *Antelope*, gael ei gadael ar frys wrth i fom ffrwydro wrth gael ei ddiogelu gan swyddog.

25 Mai: Mae awyren o'r Ariannin yn suddo HMS *Coventry*, gan ladd 19 o ddynion. Mae 12 yn cael eu lladd yn dilyn ymosodiad ar long y Llynges Fasnach Brydeinig, yr Atlantic Conveyor.

26 Mai: Mae Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig yn mabwysiadu Penderfyniad 505.

27-28 Mai: Mae peth o'r ymladd gwaethaf yn y rhyfel yn digwydd ym Mrwydr Goose Green ar Ynys Ddwyreiniol y Falkland. Mae 17 o filwyr Prydeinig yn cael eu lladd ac mae lluoedd yr Ariannin yn ildio yno

– mae dros 1,000 yn cael eu dal fel Carcharorion Rhyfel.

4 Mehefin: Mae Penderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig yn galw am gadoediad ar unwaith yn cael ei wrthod gan Brydain a'r Unol Daleithiau.

8 Mehefin: Mae'r Archentwyr yn ymosod ar longau'r RFA (y Llynges Gynorthwyol Frenhinol) *Sir Galahad* ac RFA *Sir Tristram* oddi ar *Fitzroy*, gan ladd dros 50 o filwyr Prydain.

12 Mehefin: Mae cyrch awyr olaf Ymgyrch Black Buck yn cael ei gynnal.

11-12 Mehefin: Mae'r Lluoedd Prydeinig yn adennill ardaloedd Mount Longdon, Two Sisters a Mount Harriet ar Ynysoedd Dwyreiniol y Falkland. Mae'r llong ryfel fechan Brydeinig, HMS *Glamorgan*, yn cael ei tharo gan daflegryn a'i difrodi'n wael. Mae tri o sifiliaid y Falkland yn cael eu lladd yn ystod ymosodiad gan llynges Prydain.

14 Mehefin: Mae'r Cadfridog Mario Menendez o'r Ariannin yn ildio i'r Uwch Gadfridog Prydeinig, Jeremy Moore, yn Port Stanley.

17 Mehefin: Mae Arlywydd yr Ariannin, Leopoldo Galtieri, yn ymddiswyddo fel arweinydd jwnta filwrol y wlad.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

RAF
100

raf100schools.org.uk

DEFNYDDIO'R WYBODAETH HON

Mae'n bosib cyfuno'r wybodaeth hanesyddol a ffeithiol hon gyda'r ffilm gyflwyno a'r adnoddau o'r adran adnoddau i ystyried rhai syniadau creadigol mewn clwb ysgol/clwb anffurfiol, neu ar gyfer gwers sy'n fwy seiliedig ar y cwricwlwm.

Isod, mae yna syniadau a chwestiynau ymholi a gallai'r deunyddiau hyn eich helpu gyda'r rhain.

Yn ogystal â'r wybodaeth hanesyddol uchod, mae astudiaethau achos a gwybodaeth ychwanegol ar gael yn yr adran adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys bywgraffiadau ac astudiaethau achos ar dechnoleg awyrennau.

CWESTIYNAU ALLWEDDOL I'W HARCHWILIO MEWN UNRHYW LEOLIAD:

- Pam wnaeth yr RAF roi'r gorau i ail-lenwi awyrennau â thanwydd yn yr awyr cyn 1982?
- Nodwch yr awyrennau gwahanol a gafodd eu defnyddio yn Ymgyrch Black Buck ac eglurwch rôl pob un ohonyn nhw cyn 1982.
- Nodwch ba ganolfannau awyr yn y DU a oedd yn bwysig ar gyfer datblygu'r dechnoleg i gefnogi Ymgyrch Black Buck.
- A wnaeth canghennau milwrol eraill dderbyn gwobrau yn ystod Rhyfel y Falkland?

SUT I DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN CLWB HANES NEU GLWB AMSER CINIO/AR ÔL YSGOL/CLWB ANFFURFIOL

Mae'r syniadau hyn yn addas ar gyfer grwpiau oedran a galluoedd amrywiol. Hefyd, mae'n bosibl eu defnyddio gyda'r map rhyngweithiol ar y wefan hon i ddechrau ymchwiliad hanes lleol yn ymwneud â'r RAF.

DECHREUWCH DRWY DDANGOS Y FFILM: *LONG RANGE MISSIONS - OPERATION BLACK BUCK*

DARPARWCH Y WYBODAETH HANESYDDOL NEU EI DARLLEN I'R MYFYRWYR

Gofynnwch i'r myfyrwyr egluro pwysigrwydd Ymgyrch Black Buck trwy greu un o'r canlynol:
(gallech ddefnyddio rhai o'r cwestiynau yn y bocs i ysgogi syniadau)

- Poster gwybodaeth ynglŷn â'r camau roedd angen eu rhoi ar waith i gwblhau Ymgyrch Black Buck.
- Stori papur newydd ar gyfer cylchlythyr yr ysgol/grŵp yn trafod rôl yr RAF yn ystod Rhyfel y Falkland.
- Arddangosfa ar gyfer hysbysfwrdd yr ysgol/dosbarth/grŵp yn dangos camau allweddol Ymgyrch Black Buck.
- Diagram i ddangos y broses o osod tanwydd mewn awyren yn yr awyr.

Gwaith Estynedig: Dysgwch am ddulliau llywio.

Nawr, defnyddiwch rywfaint o'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu i ddechrau ymchwilio i hanes lleol maes

awyr milwrol yn eich ardal chi - gallwch wneud hyn gan ddechrau gyda'r map rhyngweithiol. Roedd yr holl gyfarpar a gafodd ei ddefnyddio yn cael ei osod yn yr awyren yn y DU cyn hedfan i'r Ynysoedd Ascension - adroddwch y stori hon mewn perthynas â chanolfan awyr yn y DU. Mae'r RAF wedi defnyddio dros 1,500 o ganolfannau awyr dros y ganrif ddiwethaf, felly hyd yn oed os nad ydych chi'n byw yn agos i ganolfan o'r fath ar hyn o bryd, byddai un wedi bod yn eich ardal chi ar ryw adeg.

Ewch ati i ddod o hyd i wybodaeth am y safle. Nodwch pa wybodaeth neu ddealltwriaeth arall o gyfnod hanesyddol sydd eu hangen i adrodd hanes y safle hwnnw.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND

GWERSI I GEFNOGI'R CWRICWLWM A/NEU ARHOLIADAU



CANLLAWIAU AR SUT Y GALLECH DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN GWERS AM:

1. Prydain yn y Byd ers 1945.
2. Technoleg Rhyfela/rhyfel a Chymdeithas Prydain.

Er mwyn cefnogi'r gwersi hyn, mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn yr adran adnoddau, gan gynnwys gwybodaeth am y Cenhedloedd Unedig, NATO a Phenderfyniadau Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig yn ymwneud â Rhyfel y Falkland 1982, yn ogystal â hanesion cyn-filwyr Prydeinig a fu'n ymladd yn y rhyfel.

1. PRYDAIN YN Y BYD ERS 1945

11 oed a hŷn

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yma gyda gwersi presennol ar Brydain ers 1945 neu fel un wers neu hanner gwersi ar sail y model sydd wedi'i amlinellu isod. Mae modd defnyddio'r wybodaeth gyda deunydd arall yn ymwneud ag effaith wleidyddol Rhyfel y Falkland, neu ei defnyddio i archwilio natur y rhyfel i'r bobl o Brydain a fu'n ymladd yn y rhyfel.

Cwestiwn ymholi allweddol a awgrymir:

Sut wnaeth yr RAF ddefnyddio technoleg i oresgyn rhai o'r problemau a oedd yn deillio o ymladd 8,000 milltir i ffwrdd?

Gwylwch y ffilm *Long Range Missions – Operation Black Buck* a defnyddiwch y wybodaeth hanesyddol.

Mae taflen wybodaeth am NATO a'r Cenhedloedd Unedig ar gael yn yr adran adnoddau.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth, gofynnwch i'r myfyrwyr beth oedd yr anawsterau allweddol i'r DU yn dilyn y goresgyniad gan yr Archentwyr.

Gan ddefnyddio'r ffilm a'r wybodaeth hanesyddol, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau canlynol (ac egluro pob ateb):

- Beth yw NATO?
- Beth oedd prif ffocws NATO ym 1982?
- Sut wnaeth aelodaeth Prydain o NATO effeithio ar ei syniadau posibl ynglŷn â defnyddio grym milwrol?
- A oedd hanes o ymladd rhwng Prydain a'r Ariannin yn yr ugeinfed ganrif?
- A oedd y Falkland yn bwysig o safbwynt strategaeth filwrol i Brydain rhwng 1945 a 1982?
- A oedd y Falkland yn bwysig o safbwynt daearyddol i Brydain ym 1982?

(Os hoffech wybod mwy am Brydain yn ystod y Rhyfel Oer, gallwch ddangos y ffilm ar y wefan hon i'r myfyrwyr – *The Cold War and Intelligence Gathering*.)

Defnyddiwch y wybodaeth am Ymgyrch Black Buck – gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r tri pheth a oedd yn allweddol i lwyddiant yr ymgyrch.

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau i nodi deg ffaith o'r wybodaeth a'r llinell amser sy'n adrodd hanes Rhyfel y Falkland, gan egluro pam maen nhw wedi dewis y ffeithiau hynny.

Gwaith Estynedig: Ymchwiliwch i'r awyrennau a ddefnyddiodd yr RAF ar gyfer Ymgyrch Black Buck.

YMGYRCHOEDD PELL I FFWRDD RHYFEL Y FALKLAND



2. TECHNOLEG RHYFELA/RHYFEL A CHYMDEITHAS PRYDAIN

14 oed a hŷn

Gallwch ddefnyddio'r adnoddau hyn i archwilio Ymgyrch Black Buck a pham ei bod yn amlygu llwyddiant technolegol i'r RAF ym 1982, a/neu mae modd defnyddio'r adnoddau i archwilio Rhyfel y Falkland ym 1982 fel digwyddiad hanesyddol. Mae'r adnoddau hyn, adnoddau eraill, y ffilm a'r wybodaeth hanesyddol yn gallu helpu wrth archwilio cymhellion gwleidyddol a gwaddol rhyfel y Falkland.

Defnyddiwch y ffilm, y wybodaeth hanesyddol, hanesion cyn-filwyr rhyfel y Falkland, y wybodaeth am ail-lenwi awyrennau â thanwydd a bywgraffiadau Awyr-Lefftenant Withers ac Arweinydd Sgwadron Bob Tuxford yn yr adran adnoddau.

Cwestiwn allweddol:

Beth allwn ni ei ddysgu am rym milwrol Prydain (yr RAF) ym 1982 ar sail Rhyfel y Falkland?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth am NATO, gofynnwch i'r myfyrwyr nodi beth oedd blaenoriaethau milwrol Prydain ym 1981.

Dangoswch y ffilm *Long Range Missions – Operation Black Buck*.

Rhennwch y wybodaeth am Ymgyrch Black Buck (gan gynnwys bywgraffiadau Awyr-Lefftenant Withers ac

Arweinydd Sgwadron Bob Tuxford yn yr adran adnoddau), a gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r problemau allweddol a wynebodd yr RAF wrth gefnogi'r ymgyrch yn y Falkland. Wedyn gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r hyn a wnaeth yr RAF (os o gwbl) i oresgyn y problemau hyn.

Gofynnwch i'r myfyrwyr drafod a fyddai modd atal rhai o'r problemau cyn i'r rhyfel ddechrau.

Er enghraifft:

Problemau allweddol	Y dull o oresgyn y broblem	A fyddai wedi bod yn bosibl gwneud hyn cyn mis Ebrill 1982?

Gofynnwch i'r myfyrwyr lunio eu cronoleg eu hun o Ymgyrch Black Buck hyd at ddiwedd y cyrch cyntaf, a'i gosod gyda gwybodaeth y llinell amser ar fap o Dde'r Iwerydd ac Ynysoedd y Falkland. Dewiswch unrhyw sylwadau o'r bywgraffiadau a hanesion y cyn-filwyr sy'n helpu i adrodd hanes y rhyfel.

Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r pethau allweddol maen nhw wedi'u dysgu am bobl a thechnoleg ym 1982 ar ôl astudio Rhyfel y Falkland.

Gwaith Estynedig: Darllenwch Benderfyniadau 502 a 505 y Cenhedloedd Unedig ar y Falkland. Gan ddefnyddio'r wybodaeth am y Cenhedloedd Unedig, ewch ati i drafod neu ddysgu mwy am a fyddai'r Cenhedloedd Unedig wedi gallu gwneud mwy i atal Rhyfel y Falkland.

Dysgwch am yr hyn y mae'r Cenhedloedd Unedig wedi'i benderfynu ynglŷn â'r Falkland a'u sofraniaeth ers 1982.